

Eich Gwasanaethau Fasgwlaidd yn Ne-ddwyrain Cymru

Oeddech chi'n gwybod?

Mae Gwasanaethau Fasgwlaidd yn Ne-ddwyrain Cymru bellach yn cael eu trefnu fel model prif ganolfan a lloerennau.

Mae'r model gofal newydd hwn wedi'i roi ar waith gan Rwydwaith Fasgwlaidd De-ddwyrain Cymru i sicrhau bod y broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol o ansawdd uchel yn cael ei chynnal ar gyfer y dyfodol.

Mae'r trawsnewid yn cynnwys partneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Nod Rhwydwaith Fasgwlaidd De-ddwyrain Cymru yw gwella canlyniadau cleifion, a darparu gwasanaethau fasgwlaidd cydlynol i boblogaeth ar draws ardal ddaearyddol eang sy'n cynnwys nifer o ysbytai gwahanol.

Pam y cafodd y newid ei wneud?

Mae gwasanaethau fasgwlaidd yn Ne-ddwyrain Cymru wedi wynebu nifer cynyddol o heriau ers blyneddau lawer, gan gynnwys poblogaeth gynyddol sy'n heneiddio a chynnydd yn y galw am wasanaethau. Mae hyn yn golygu bod gwasanaethau yn anghynaliadwy ar gyfer y dyfodol yn eu fformat presennol. Mae cyfluniad gwasanaethau fasgwlaidd ar draws y rhanbarth wedi'i drafod yn helaeth ers llawer o flynyddoedd, ac archwiliwyd nifer o opsiynau amrywiol, a chafodd cyfres o argymhellion eu cyflwyno fel rhan o'r achos dros newid.

Wrth i lawdriniaeth fasgwlaidd ddod yn fwyfwy arbenigol, mae tystiolaeth yn awgrymu bod cleifion yn cael canlyniadau gwell os ydynt yn derbyn triniaeth fawr, gymhleth a brys mewn canolfannau arbenigol mwy o faint.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Rhwydwaith Fasgwlaidd
De-ddwyrain Cymru
South East Wales
Vascular Network

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng prif ganolfan a lloerennau?

Ysbyty Prif Ganolfan

Mae'r brif ganolfan yn derbyn yr holl argyfyngau fasgwlaidd sy'n gofyn am ymyrraeth fasgwlaidd neu endofasgwlaidd, ynghyd â gofal brys yr holl gleifion mewnol fasgwlaidd. Mae ganddi welyau penodedig ar gyfer cleifion mewnol fasgwlaidd mewn ward sydd wedi'i staffio gan nyrsys sydd â diddordeb mewn llawdriniaeth fasgwlaidd.

Ysbyty Athrofaol Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw'r ysbyty prif ganolfan. Fe'i dewiswyd oherwydd yr amrywiaeth o wasanaethau aciwt sydd eisoes wedi'u sefydlu ar y safle fel darparwr arbenigol trauma mawr, cardioleg ymyriadol a llawdriniaeth gardio-thorasig. Oherwydd y cysylltiadau rhwng y gwasanaethau hyn a'r gwasanaeth fasgwlaidd, dyma'r opsiwn a ffafriwyd ar gyfer y brif ganolfan gan uwch feddygon o'r holl Fyrddau Iechyd dan sylw.

Ysbyty Lloeren

Wrth i gleifion ddechrau eu taith adfer ac adsefydlu, bydd eu gofal yn cael ei ddarparu mewn lleoliad ysbyty a chymunedol a fydd mor agos at eu cartref â phosibl.

O ystyried yr angen am Adran Damweiniau ac Achosion Brys dan arweiniad meddygon ymgynghorol a gwasanaeth llawdriniaeth gyffredinol frys, mae'r ysbytai lloeren ar gyfer pob ardal Bwrdd Iechyd fel a ganlyn:

- Ysbyty Athrofaol y Faenor ac Ysbyty Brenhinol Gwent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Ysbyty Athrofaol Cymru (Adain Glan-y-Llyn), Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Sylwch fod cynlluniau yn eu lle i ysbyty lloeren Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddod yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau

Beth yw'r manteision i gleifion?

Mae cael gwasanaethau llawfeddygol fasgwlaidd mewn prif ganolfan gydag ysbytai lloeren ategol yn arwain at ganlyniadau gwell i gleifion.

Credwn y bydd model rhwydwaith prif ganolfan a lloerennau ar gyfer gwasanaethau fasgwlaidd yn fwy gwydn a hyblyg ar gyfer y dyfodol, gan ein galluogi i wneud y canlynol:

- parhau i ddarparu gofal o ansawdd uchel, diogel ac effeithiol
- denu staff arbenigol iawn a meithrin talent
- gwneud gwasanaethau'n fwy cynaliadwy a chadarn
- adeiladu mwy o wytnwch yn ein gweithlu
- meithrin dull mwy cydweithredol o weithio sy'n gwella canlyniadau

Siaradwch â'n tîm os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.